



Pensiwn y Wladwriaeth

Mae'r nodiadau hyn yn dweud mwy wrthydh am bensiwn y wladwriaeth, ac yn eich helpu i lenwi eich ffurflen gais.

Nid yw'r nodiadau hyn yn berthnasol i chi os ydych yn:

- ddyn a aned ar neu ar ôl **6 Ebrill 1951**, neu
- menyw a aned ar neu ar ôl **6 Ebrill 1953**.

Bydd angen i chi ddarllen y nodiadau ar Bensiwn newydd y Wladwriaeth yn lle hynny.

Mae gennym lawer o wahanol ffyrdd y gallwn gyfathrebu â chi.

Os oes angen braille, Iaith Arwyddion Prydain, dolen glyw, cyfieithiadau, print bras, sain neu rywbeth arall, cysylltwch â ni.

Ein manylion cyswllt yw:

- Ffôn: **0800 731 0453**
- Ffôn testun: **0800 731 0456**
- Relay UK: **18001** yna **0800 731 7898**

Os hoffech y nodiadau hyn yn y Saesneg ffoniwch **0800 731 7898**.

Cynnwys

Eich Pensiwn y Wladwriaeth.....	4
Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Gwirfoddol a gwirfoddol ychwanegol	4
Gwella eich Pensiwn y Wladwriaeth.....	5
Os ydych yn briod neu'n bartner sifil.....	5
Os ydych wedi ysgaru.....	5
Os yw eich partneriaeth sifil wedi'i diddymu	5
Os ydych yn weddw.....	5
Cymorth i lenwi'r ffurflen.....	6
Os ydych yn bartner sifil sy'n goroesi.....	6
Olrhain pensiwn galwedigaethol neu bensiwn personol a gollwyd	6
Gweithio y tu hwnt i oedran pensiwn y wladwriaeth.....	7
Talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar ôl oedran Pensiwn y Wladwriaeth	7
Gohirio eich Pensiwn y Wladwriaeth.....	8
Gohirio eich Pensiwn y Wladwriaeth a gwneud cais am Daliad Tanwydd Gaeaf	8
Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth.....	8
Cyfandaliad.....	9
Sut mae gohirio eich Pensiwn y Wladwriaeth yn cael ei effeithio gan fudd-daliadau eraill	9
Trethiant.....	9
Beth sy'n rhaid i mi ei wneud?.....	10
Os ydych ar hyn o bryd yn gohirio gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth.....	10
Cofiwch	10
Nodiadau i'ch helpu i lenwi'ch ffurflen gais	10
Gohirio eich cais am Bensiwn y Wladwriaeth	12
Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth.....	12
Cyfandaliad untro.....	12
Amgylchiadau pan na fydd gohirio gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth yn ennill arian ychwanegol	12
Darganfod faint rydym wedi'i dalu i mewn i'r cyfrif	13
Os byddwn yn talu gormod o arian i chi	13
Y cyfrif rydych am ei ddefnyddio	13
Beth i'w wneud nawr.....	13
Pan fyddwch wedi llenwi eich ffurflen gais.....	16
Mwy o wybodaeth.....	17
Cysylltiadau defnyddiol.....	18

Trin pobl yn deg

Rydym wedi ymrwymo i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac i drin pobl yn deg. I ddarganfod mwy am y gyfraith hon, chwiliwch am, chwiliwch am 'Deddf Cydraddoldeb' ar [**www.gov.uk**](http://www.gov.uk)

Pwysig

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi arweiniad cyffredinol yn unig ac ni ddylid ei drin fel datganiad cyflawn ac awdurdodol o'r gyfraith.

Eich Pensiwn y Wladwriaeth

Mae eich Pensiwn y Wladwriaeth yn seiliedig ar y cyfraniadau Yswiriant Gwladol (YG) rydych wedi'u talu, wedi cael eich trin fel petaech yn eu talu, neu wedi cael eich credydu â nhw, yn ystod eich bywyd gwaith. Efallai y bydd gwahanol rannau i'ch Pensiwn y Wladwriaeth, er enghraifft Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth a Phensiwn ychwanegol y Wladwriaeth.

Gallwn ddweud wrthyfch faint o Bensiwn y Wladwriaeth y byddwch yn ei gael. Ffoniwch ni ar **0800 731 7936**.

Os nad oes gennych hawl i'r gyfradd lawn o Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth efallai y gallwch gynyddu'r swm a gewch drwy dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol gwirfoddol ar gyfer y blynyddoedd diwethaf.

Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Gwirfoddol a gwirfoddol ychwanegol

Efallai y gallwch wella eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth drwy dalu am gyfraniadau Yswiriant Gwladol gwirfoddol (am y 6 blynedd dreth ddiwethaf) i lenwi unrhyw fylchau yn eich cofnod Yswiriant Gwladol.

Weithiau gallwch dalu am fylchau o fwy na 6 blynedd yn ôl, yn dibynnu ar eich oedran. Mae gennych 6 blynedd ar ôl i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth i gynyddu eich Pensiwn y Wladwriaeth os ydych yn ddyn a aned rhwng 6 Ebrill 1945 a 5 Ebrill 1950, neu fenyw a aned rhwng 6 Ebrill 1950 a 5 Hydref 1952 a chael o leiaf 20 mlynedd cymhwyso o gyfraniadau Yswiriant Gwladol (gan gynnwys blynyddoedd llawn o Ddiogelwch Cyfrifoldebau Cartref). Mae angen i'r 6 blynedd fod rhwng 6 Ebrill 1975 a'r flwyddyn dreth cyn i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Mae'n rhaid i gwsmeriaid a gyrhaeddodd oedran Pensiwn y Wladwriaeth rhwng 6 Ebrill 2008 a 5 Ebrill 2010 gael o leiaf un blwyddyn gymhwyso wedi'i dalu, neu ei drin fel pe bai wedi'i dalu.

Ni ellir talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol gwirfoddol ychwanegol ar gyfer unrhyw flwyddyn dreth y mae'r cyfan ohoni wedi'i diogelu gan ddewis cyfradd ostyngol gwraig briod neu weddw.

Os nad oes gennych yr 20 mlynedd cymhwyso sydd eu hangen i dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol gwirfoddol ychwanegol efallai y gallwch eu cael drwy dalu rhai cyfraniadau Yswiriant Gwladol gwirfoddol o dan y terfynau amser arferol.

Os hoffech wybod a allwch gynyddu eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth fel hyn, cysylltwch â ni. Gallwch ofyn i ni am hyn ar unrhyw adeg, hyd yn oed os nad ydych am wneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth eto.

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am gyfraniadau Yswiriant Gwladol gwirfoddol yn **www.gov.uk**

Gwella eich Pensiwn y Wladwriaeth

Os ydych yn briod neu'n bartner sifil

Weithiau ni fyddwch yn cael Pensiwn y Wladwriaeth yn seiliedig ar eich cyfraniadau Yswiriant Gwladol eich hun, neu bydd eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn llai na'r gyfradd lawn. Ond efallai y gallwch gael Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn seiliedig ar gyfraniadau Yswiriant Gwladol eich gŵr, gwraig neu bartner sifil os rydych yn:

- gwraig yn briod â dyn, a chyrhaeddodd eich gŵr oedran pensiwn y wladwriaeth, neu
- gŵr priod, a'ch gwraig:
 - wedi'i geni ar neu ar ôl 6 Ebrill 1950 a
 - wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, neu
- menyw sy'n briod â menyw, dyn sy'n briod â dyn neu bartner sifil, a'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil:
 - wedi'i eni ar neu ar ôl 6 Ebrill 1950 a
 - wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Y cynharaf y bydd dyn sy'n briod â dyn neu bartner sifil gwrywaidd yn gallu cael Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn seiliedig ar gofnod Yswiriant Gwladol ei ŵr neu bartner sifil yw 6 Ebrill 2015. Dyma'r dyddiad y mae dyn a aned ar 6 Ebrill 1950 yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Os ydych yn fenyw briod a bod eich priod yn newid rhyw yn gyfreithiol o wryw i fenyw yn ystod eich priodas, efallai y byddwch yn gallu gwella eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth drwy ddefnyddio ei chyfraniadau hyd yn oed os cafodd ei geni cyn 6 Ebrill 1950. Dyma'r un driniaeth fel pe na bai wedi newid ei rhyw yn gyfreithiol.

Os ydych wedi ysgaru

Efallai y gallwch gael cynnydd o Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth drwy ddefnyddio cyfraniadau Yswiriant Gwladol eich cyn-ŵr neu wraig.

Os yw eich partneriaeth sifil wedi'i diddymu

Efallai y gallwch wella eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth drwy ddefnyddio cyfraniadau Yswiriant Gwladol eich cyn bartner sifil.

Os ydych yn weddw

Efallai y gallwch wella eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth drwy ddefnyddio cyfraniadau Yswiriant Gwladol eich diweddar ŵr neu wraig. Ond ni fyddwch yn gallu gwella eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth drwy ddefnyddio cyfraniadau Yswiriant Gwladol eich diweddar ŵr neu wraig os:

- roeddech o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth pan fu farw eich gŵr neu wraig, a
- rydych yn ailbriodi neu'n ffurfio partneriaeth sifil cyn i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Os oeddech yn weddw ar neu ar ôl 9 Ebrill 2001 ac yn cael budd-dal profedigaeth fel Lwfans Profedigaeth neu Lwfans Rhiant Gwedd, ni fyddwch yn cael y budd-dal hwnnw pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Yna fel arfer bydd gennych hawl i Bensiwn y Wladwriaeth yn lle hynny.

Os oeddech yn weddw cyn 9 Ebrill 2001 ac yn cael budd-dal gwraig weddw fel Pensiwn Gwraig Weddw neu Lwfans Mam Weddw, gallwch:

- hawlio Pensiwn y Wladwriaeth o oedran Pensiwn y Wladwriaeth, neu
- parhau i gael eich Pensiwn Gwraig Weddw nes eich bod yn 65, neu
- parhau i gael eich Lwfans Mam Weddw cyhyd ag y bydd gennych hawl iddo, neu
- ildio eich budd-dal gwraig weddw i ennill Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol.

Cymorth i lenwi'r ffurflen

Os ydych fwy na thri deg diwrnod i ffwrdd o gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, gallwch gael datganiad Pensiwn y Wladwriaeth i'ch helpu i benderfynu beth i'w wneud. Bydd yn dweud wrthych os byddwch yn cael mwy o arian drwy wneud cais am Pensiwn y Wladwriaeth yn hytrach na'ch budd-dal gwraig weddw.

Os ydych yn bartner sifil sy'n goroesi

Efallai y gallwch wella eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth drwy ddefnyddio cyfraniadau Yswiriant Gwladol eich diweddar bartner sifil. Ond ni fyddwch yn gallu gwella eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth drwy ddefnyddio cyfraniadau Yswiriant Gwladol eich diweddar bartner sifil os:

- roeddech o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth pan fu farw eich partner sifil, a
- rydych yn ffurfio partneriaeth sifil newydd neu'n priodi cyn i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Os oes gennych hawl i Lwfans Rhiant Gweddwr neu Lwfans Profedigaeth oherwydd marwolaeth eich partner sifil, ni fyddwch yn cael y budd-daliadau hynny pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Yna fel arfer bydd gennych hawl i Pensiwn y Wladwriaeth yn lle hynny.

Olrhain pensiwn galwedigaethol neu bensiwn personol a gollwyd

Os ydych wedi newid swydd nifer o weithiau yn ystod eich bywyd gwaith, mae'n hawdd colli cysylltiad â hen gyflogwr a'u cynllun pensiwn. Mae'n bosibl y gall y Gwasanaeth Olrhain Pensiwn eich helpu os nad ydych yn siŵr o'r holl fanylion ond eich bod:

- yn meddwl efallai bod gennych hen bensiwn galwedigaethol neu personol
- meddwl y gallech fod yn fuddiolwr hen gynllun pensiwn, neu
- yn gweithredu ar ran rhywun arall.

Bydd olrhain eich holl fuddion pensiwn nawr yn eich helpu i wneud penderfyniadau yn y dyfodol am gynilo ar gyfer eich ymddeoliad. A bydd yn helpu

i sicrhau eich bod yn cael yr holl fuddion pensiwn y mae gennych hawl iddynt pan fyddwch yn ymddeol. Gallwch olrhain pensiwn trwy:

- fynd i **www.gov.uk/dod-o-hyd-i-fanylion-cyswllt-pensiwn**
- ein ffonio ar **0800 731 0175**. Byddwn yn gwneud yr olrhain dros y ffôn neu anfon ffurflen gais atoch. Yr oriau agor yw dydd Llun i ddydd Gwener 8am i 6pm
- ysgrifennu i:

The Pension Tracing Service
Tyneview Park
Whitley Road
Newcastle upon Tyne
NE98 1BA

Mae angen i ni wybod o leiaf enw eich cyflogwr blaenorol neu gynllun pensiwn.

Os oes gennych anawsterau lleferydd neu glyw gallwch gysylltu â ni drwy ddefnyddio ffôn testun ar **0800 731 0456**.

Neu gallwch ddefnyddio Text Relay drwy ddeialu **18001 0800 731 0175**.

Gweithio y tu hwnt i oedran pensiwn y wladwriaeth

Os ydych yn gweithio y tu hwnt i oedran Pensiwn y Wladwriaeth, gallwch gynyddu eich incwm pan fyddwch yn ymddeol. Mae hyn oherwydd bydd gennych fwy o amser i ennill a chynilo ar gyfer eich dyfodol.

Os byddwch yn penderfynu:

- gweithio llai o oriau
- rhannu swydd
- gwneud rôl llai heriol, neu
- gwneud gwaith tymhorol

gwirio sut y bydd yn effeithio ar unrhyw gynlluniau pensiwn galwedigaethol yr ydych talu i mewn iddo.

Os ydych yn gweithio y tu hwnt i oedran Pensiwn y Wladwriaeth, gallwch hawlio Pensiwn y Wladwriaeth tra byddwch yn parhau i weithio. Ni fydd yr arian a enillwch a'r oriau a weithiwch yn effeithio ar eich Pensiwn y Wladwriaeth, ond efallai y byddwch yn talu treth ar eich Pensiwn y Wladwriaeth yn ogystal â'r arian a enillwch.

Gallwch hefyd ohirio eich cais am Bensiwn y Wladwriaeth i ennill Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol neu gyfandaliad.

Efallai y byddwch yn gallu parhau i weithio gyda'r un cyflogwr tra byddant yn talu pensiwn galwedigaethol i chi.

Talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar ôl oedran Pensiwn y Wladwriaeth

Unwaith y byddwch wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth nid oes rhaid i chi dalu Yswiriant Gwladol (YG). Os ydych yn bwriadu gweithio ar ôl i chi gyrraedd

oedran Pensiwn y Wladwriaeth neu os byddwch yn gohirio gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth, dylech ddangos eich tystysgrif geni neu basbort i'ch cyflogwr fel prawf o'ch oedran. Nid yw HMRC bellach yn cyhoeddi tystysgrifau eithrio oedran.

Dylai eich cyflogwr fod yn ymwybodol o hyn. Gallant ddarganfod mwy am y broses newydd yn [**www.gov.uk/tax-national-insurance-after-state-pension-age**](http://www.gov.uk/tax-national-insurance-after-state-pension-age)

Os oes angen i'ch cyflogwr wirio pryd y byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth gallant ddefnyddio cyfrifiannell oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn [**www.gov.uk/calculate-state-pension**](http://www.gov.uk/calculate-state-pension)

Gohirio eich Pensiwn y Wladwriaeth

Os ydych wedi bod yn gohirio gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth efallai eich bod wedi ennill Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol neu fod â hawl i gyfandaliad. Mae hyn yn dibynnu ar ba mor hir rydych wedi gohirio eich cais, hyd yn oed os yw eich dyddiad cais ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016. I gael Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol mae'n rhaid eich bod wedi ei ohirio am o leiaf 5 wythnos, neu 12 mis yn olynol am gyfandaliad. Dim ond unwaith y gallwch wneud hyn ac fel arfer mae'n rhaid i chi fyw ym Mhrydain Fawr. Gallwch ohirio gwneud cais am Pensiwn y Wladwriaeth am gyhyd ag y dymunwch.

I gael mwy o wybodaeth am ohirio eich cais am Pensiwn y Wladwriaeth gweler **Pryd i wneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth yn Rhan 4** ar **dudalen 11** y llyfryn hwn.

Gohirio eich Pensiwn y Wladwriaeth a gwneud cais am Daliad Tanwydd Gaeaf

Os ydych yn gymwys i gael Taliad Tanwydd Gaeaf ac yn gohirio eich cais am Pensiwn y Wladwriaeth, bydd angen i chi wneud cais am y Taliad Tanwydd Gaeaf i'w gael. Dim ond unwaith y mae angen i chi wneud hyn.

Gallwch gael mwy o wybodaeth am Daliad Tanwydd Gaeaf, gan gynnwys sut i wneud cais, yn [**www.gov.uk/taliad-tanwydd-gaeaf**](http://www.gov.uk/taliad-tanwydd-gaeaf)

Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth

Gallwch ddewis cael Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol os ydych wedi gohirio eich cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth am **5 wythnos neu fwy**. Pan fyddwch yn gwneud cais, byddwch yn cael Pensiwn y Wladwriaeth wythnosol uwch am weddill eich oes. Swm y Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol a gewch yw 0.2% o'ch Pensiwn y Wladwriaeth wythnosol am bob wythnos y byddwch wedi gohirio eich cais. Mae hyn yn gweithio allan ar 1% am bob 5 wythnos, a 10.4% am flwyddyn gyfan.

Pan fydd eich Pensiwn y Wladwriaeth yn cynyddu bob mis Ebrill, bydd eich Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol fel arfer yn cynyddu hefyd. Nid yw Pensiwn y Wladwriaeth yn cynyddu ym mhob gwlad dramor.

Cyfandaliad

Os ydych wedi gohirio eich cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth yn barhaus, am o leiaf blwyddyn neu fwy yn olynol, mae gennych ddau ddewis. Gallwch gael Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol neu gallwch gael cyfandaliad yn lle hynny. Bydd yn rhaid i chi dalu treth ar y cyfandaliad. Mae'r cyfandaliad yn cynnwys Pensiwn y Wladwriaeth y byddech wedi'i gael pe na baech wedi gohirio gwneud cais, ynghyd â llog. Byddwn yn ychwanegu llog at y cyfandaliad am bob wythnos y byddwch yn gohirio gwneud cais.

Byddwn yn ychwanegu'r llog 2% yn uwch na chyfradd sylfaenol Banc Lloegr.

Gallwch gael y cyfandaliad pan fyddwch yn dechrau gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth neu yn y flwyddyn dreth ganlynol. Byddwch hefyd yn cael eich Pensiwn y Wladwriaeth arferol pan fyddwch yn dechrau gwneud cais.

Sut mae gohirio eich Pensiwn y Wladwriaeth yn cael ei effeithio gan fudd-daliadau eraill

Os ydych wedi gohirio gwneud cais am Pensiwn y Wladwriaeth tra'n cael budd-dalidadau eraill, ni fyddwch wedi cronni unrhyw Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol neu gyfandaliad am y diwrnodau y cawsoch y budd-dal arall. Mae'r budd-daliadau eraill hyn yn cynnwys:

- Lwfans Gofalwr
- Taliad Cymorth Gofalwr
- Lwfans Anabledd Difrifol
- Atodiad Anghyflogadwyedd
- Pensiwn Gwraig Weddw
- Lwfans Mam Weddw
- Budd-dal Analluogrwydd
- Credyd Pensiwn.

Hefyd, ni fydddech wedi gallu cronni Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol neu gyfandaliad am y diwrnodau y cawsoch chi neu'ch partner, os oes gennych un, un neu fwy o'r budd-daliadau canlynol yn seiliedig ar incwm:

- Credyd Pensiwn
- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm
- Credyd Cynhwysol.

Mae partner yn golygu:

- person rydych yn briod â nhw neu berson rydych yn byw gydag nhw fel petaech yn briod iddynt, neu
- partner sifil neu berson rydych yn byw gyda nhw fel petaech yn bartneriaid sifil.

Trethiant

Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu treth ar eich Pensiwn y Wladwriaeth. Ac os byddwch yn penderfynu cymryd Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol, bydd yn rhaid i chi dalu treth ar hwnnw hefyd. Os byddwch yn penderfynu cymryd y cyfandaliad yn lle Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol efallai y bydd yn rhaid i chi dalu treth ar y cyfandaliad.

Bydd Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol yn cael ei gymryd i ystyriaeth ar gyfer Credyd Pensiwn a Budd-dal Tai, yn union fel mathau eraill o incwm.

Ni fydd y cyfandaliad yn effeithio ar eich cais am Gredyd Pensiwn neu Fudd-dal Tai. I gael mwy o wybodaeth am dreth a Phensiwn y Wladwriaeth ewch i www.gov.uk

Beth sy'n rhaid i mi ei wneud?

Nid oes rhaid i chi ddweud wrthym os byddwch yn gohirio gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth o hyd. Ond os ydych yn cael budd-dal nawdd cymdeithasol arall mae angen i chi ddweud wrthym beth rydych am ei wneud.

Dim ond gwybodaeth gyffredinol y gall y llyfryn hwn ei roi. Mae mwy o wybodaeth ar ein gwefan yn www.gov.uk/pensiwn-y-wladwriaeth

Efallai y byddwch hefyd am gael cyngor ariannol annibynnol. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu am hyn.

Os ydych ar hyn o bryd yn gohirio gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth

Efallai y byddwch hefyd yn elwa o'r dewisiadau sydd ar gael. I gael gwybod mwy, cysylltwch â ni ar **0800 731 7936**.

Cofiwch

Gallwch ein ffonio i wneud cais am eich pensiwn y wladwriaeth.

Ffoniwch linell gais Gwasanaeth Pensiwn ar **0800 731 0453**.

Mae'r llinellau ar agor rhwng 8am a 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio gwyliau cyhoeddus.

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o linellau daear a ffonau symudol.

Os oes gennych anawsterau lleferydd neu glyw, gallwch gysylltu â ni drwy ddefnyddio ffôn testun ar **0800 731 0456**. Rydym yn croesawu galwadau gan Text Relay.

Os nad Cymraeg neu Saesneg yw eich iaith gyntaf, gallwch ofyn am gyfieithydd.

Ar yr un pryd, gallwch wneud cais am Gredyd Pensiwn a hawlio Fudd-dal Tai.

Nodiadau i'ch helpu i lenwi'ch ffurflen gais

Tudalen 2 - Chi

Defnyddiwch y rhan hon o'r ffurflen i roi eich manylion personol i ni.

Tudalen 3 - Eich gŵr, gwraig neu bartner sifil

Atebwch bob cwestiwn ar y ffurflen sy'n berthnasol i'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil, os oes gennych un.

Os gwnaethoch drosi neu newid eich partneriaeth sifil i briodas, neu briodi eich partner sifil, nodwch y dyddiad y caiff eich priodas ei thrin fel un sy'n dechrau.

Os ydych wedi dweud wrthym eich bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil, dylech anfon atom eich:

- tystysgrif priodas, neu
- tystysgrif partneriaeth sifil.

Tudalen 4 - Pryd i wneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth

Bydd yr adran hon o'r nodiadau yn rhoi mwy o wybodaeth i chi am rai o'r cwestiynau a'r rhannau yn y ffurflen.

Mae diwrnod talu Pensiwn y Wladwriaeth yn ddiwrnod penodol o'r wythnos. Ni fydd unrhyw arian a enillwch yn effeithio ar eich Pensiwn y Wladwriaeth ond gallai effeithio ar eich treth incwm.

Bydd angen i chi gysylltu â ni i wneud cais ar wahân am unrhyw Bensiwn y Wladwriaeth rydych yn gymwys i'w gael yn seiliedig ar gofnod Yswiriant Gwladol eich gŵr, gwraig neu bartner sifil os:

- ydych yn gymwys i gael rhywfaint o Bensiwn y Wladwriaeth yn seiliedig ar eich cofnod Yswiriant Gwladol eich hun ac rydych yn gwneud cais am hwn cyn iddynt gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth a
- pan fyddant yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth byddant yn penderfynu gohirio cyn gwneud cais am eu Pensiwn y Wladwriaeth eu hunain.

Terfynau amser

Gallwn dderbyn eich cais os caiff ei dderbyn heb fod yn gynharach na 4 mis cyn y dyddiad yr ydych yn dymuno cael Pensiwn y Wladwriaeth, neu'r dyddiad y byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, p'un bynnag yw'r hwyraf.

Ni ellir ôl-ddyddio eich Pensiwn y Wladwriaeth fwy na 12 mis cyn y dyddiad y derbynnir eich cais.

Os byddwch yn gofyn i ni ôl-ddyddio eich cais am Bensiwn y Wladwriaeth, byddwn yn gweithio allan faint o Bensiwn y Wladwriaeth sy'n ddyledus i chi, yn ôl i'r dyddiad y dywedwch wrthym eich bod am i'ch cais ddechrau, ac yn talu'r swm hwn i chi. Nid yw'r taliad hwn yn cynnwys unrhyw log, ac ni fyddwch yn ennill Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol na chyfandaliad am y cyfnod y gwnaethoch ôl-ddyddio eich cais.

Gohirio eich cais am Bensiwn y Wladwriaeth

Efallai y byddwch am feddwl am agwedd fwy hyblyg at eich ymddeoliad. Os dymunwch, gallwch barhau i weithio'n hirach, neu weithio'n rhan-amser, p'un a ydych wedi gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth ai peidio.

Os byddwch yn oedi cyn gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth tan amser sy'n gyfleus i chi, gallwch gael Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol neu gyfandaliad trethadwy untro.

Yn dibynnu ar ba mor hir y byddwch yn gohirio eich cais, pan fyddwch yn gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth yn y pen draw, gallwch ddewis naill ai:

- Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol, a delir am oes ar ben eich Pensiwn y Wladwriaeth wythnosol arferol, neu
- cyfandaliad trethadwy, untro, ynghyd â'ch Pensiwn y Wladwriaeth wythnosol arferol.

Y cyfnod lleiaf y mae'n rhaid i chi gohirio gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth i gael Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol yw 5 wythnos, neu 12 mis yn olynol i gael cyfandaliad.

Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth

Os byddwch yn dewis Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth, gallwch gael 1% ychwanegol ar ben eich Pensiwn y Wladwriaeth wythnosol am bob pum wythnos y byddwch yn oedi cyn gwneud cais – mae hyn yr un peth â 10.4% yn ychwanegol ar gyfer pob blwyddyn y byddwch yn gohirio cyn gwneud cais. Felly, os byddwch yn oedi cyn gwneud cais am flwyddyn, gallech gael tua £1 yn ychwanegol am bob £10 o'ch Pensiwn y Wladwriaeth wythnosol.

Cyfandaliad untro

Taliad untro yw hwn sy'n seiliedig ar y swm o Bensiwn y Wladwriaeth y byddech wedi'i gael yn y cyfnod y gwnaethoch ohirio gwneud cais. Mae hefyd yn cynnwys llog, a fydd bob amser o leiaf 2% yn uwch na chyfradd sylfaenol Banc Lloegr. Yn ogystal â chael eich cyfandaliad, byddwch hefyd yn cael eich Pensiwn y Wladwriaeth wythnosol, wedi'i dalu ar y gyfradd arferol o'r adeg y byddwch yn dechrau ei hawlio.

Gallwch ohirio gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth cyhyd ag y dymunwch i gronni naill ai Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol neu gyfandaliad. Gallech hefyd ddewis ôl-ddyddio eich Pensiwn y Wladwriaeth.

Amgylchiadau pan na fydd gohirio gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth yn ennill arian ychwanegol

Os byddwch yn gohirio gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth am fwy na phum wythnos, mae rhai amgylchiadau lle efallai na fyddwch yn ennill Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol. Neu os ydych wedi gohirio gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth am fwy na 12 mis, mae rhai amgylchiadau lle mae'n bosibl na fyddwch yn ennill cyfandaliad. Er enghraifft, ers cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, rydych chi neu'ch partner wedi cael budd-daliadau penodol eraill, neu os yw rhywun arall wedi cael cynnydd mewn budd-dal arall i chi, neu os ydych wedi bod yn y carchar.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am ohirio eich cais am Bensiwn y Wladwriaeth, cysylltwch â ni ar **0800 731 7936**.

Tudalen 4 - Sut rydym yn eich talu

Darllenwch y nodiadau hyn cyn i chi gwblhau'r adran hon ar dudalen 4 y ffurflen gais.

Fel arfer byddwn yn talu eich arian i mewn i gyfrif

Bydd llawer o fanciau a chymdeithasau adeiladu yn gadael i chi gasglu eich arian mewn swyddfa bost. Byddwn yn dweud wrthyh pryd y bydd y taliad cyntaf a'r ail daliad yn cael eu gwneud ac am faint mae pob un.

Byddwn yn dweud wrthyh os bydd y swm a dalwn i mewn i'r cyfrif yn newid.

Darganfod faint rydym wedi'i dalu i mewn i'r cyfrif

Gallwch wirio eich taliadau ar gyfriflenni. Gall y cyfriflenni ddangos eich rhif Yswiriant Gwladol (YG) wrth ymyl unrhyw daliadau rydym wedi'u gwneud. Os credwch fod taliad yn anghywir, cysylltwch â'r swyddfa sy'n eich talu ar unwaith.

Os byddwn yn talu gormod o arian i chi

Os byddwn yn talu gormod o arian i chi, mae gennym yr hawl i gymryd yn ôl unrhyw arian rydym yn ei dalu nad oes gennych hawl iddo. Er enghraifft, efallai y byddwch yn rhoi rhywfaint o wybodaeth i ni sy'n golygu bod gennych hawl i lai o arian. Weithiau efallai na fyddwn yn gallu newid y swm yr ydym eisoes wedi ei dalu i chi. Mae hyn yn golygu y byddwn wedi talu arian i chi nad oes gennych hawl iddo.

Byddwn yn cysylltu â chi cyn i ni gymryd unrhyw arian yn ôl.

Y cyfrif rydych am ei ddefnyddio

Gallwch ddefnyddio **cyfrif** banc neu gymdeithas adeiladu **yn eich enw chi**, neu **gyfrif ar y cyd**.

Gallwch ddefnyddio **cyfrif rhywun arall** os:

- mae telerau ac amodau eu cyfrif yn caniatáu hyn, a
- maent yn cytuno i adael i chi ddefnyddio eu cyfrif, a
- rydych yn siŵr y byddan nhw'n defnyddio'ch arian yn y ffordd rydych yn dweud wrthynt.

Gallwch ddefnyddio **cyfrif Undeb Credyd**. Rhaid i chi roi manylion cyfrif yr Undeb Credyd i ni. Bydd eich Undeb Credyd yn gallu eich helpu gyda hyn.

Os ydych yn **benodai** neu **gynrychiolydd cyfreithiol** yn gweithredu ar ran y cwsmer, dylai'r cyfrif fod yn eich enw chi yn unig.

Mae'n bwysig iawn eich bod yn llenwi POB blwch yn y ffurflen gais yn gywir, gan gynnwys rhif rôl neu gyfeirnod y gymdeithas adeiladu, os oes gennych un. Os byddwch yn rhoi'r manylion cyfrif anghywir i ni efallai y bydd oedi gyda'ch taliad neu gallech golli arian.

Gallwch ddod o hyd i fanylion y cyfrif ar eich llyfr siec neu gyfriflenni banc. Os nad ydych yn gwybod manylion y cyfrif, gofynnwch i'r banc neu gymdeithas adeiladu.

Beth i'w wneud nawr

Dywedwch wrthym am y cyfrif rydych am ei ddefnyddio ar dudalen 4 y ffurflen gais. Trwy roi manylion eich cyfrif i ni rydych yn:

- cytuno y byddwn yn eich talu i mewn i gyfrif, a
- deall yr hyn rydym wedi'i ddweud wrthynt yn yr adran uchod.

Os ydych yn mynd i agor cyfrif, rhowch fanylion eich cyfrif i ni cyn gynted ag y byddwch yn eu cael.

Os nad oes gennych gyfrif, cysylltwch â ni a byddwn yn rhoi mwy o wybodaeth i chi.

Llenwch weddill y ffurflen gais. Nid oes rhaid i chi aros nes eich bod wedi agor cyfrif neu gysylltu â ni.

Tudalen 5 - Unrhyw amser yr oeddech yn byw neu'n gweithio y tu allan i'r Deyrnas Unedig

Mae angen i ni wybod am unrhyw amser yr ydych wedi byw neu weithio y tu allan i'r Deyrnas Unedig (DU). Mae hyn oherwydd os ydych wedi talu i mewn i'r system nawdd cymdeithasol mewn gwlad arall, efallai y bydd yn cyfrif tuag at eich Pensiwn y Wladwriaeth.

Y Deyrnas Unedig yw Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Dywedwch wrthym am unrhyw amser yr oeddech yn byw neu'n gweithio yn:

- gwlad y tu allan i'r DU,
- Ynysoedd y Sianel, neu
- Iwerddon.

Peidiwch â dweud wrthym am unrhyw amser yr oeddech dramor gyda Lluoedd EF.

Tudalen 6 - Eich cyfraniadau Yswiriant Gwladol

Defnyddiwch y rhan hon o'r ffurflen i ddweud wrthym os ydych wedi bod yn gweithio cyn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth a rhowch fanylion eich cyflogaeth i ni.

Tudalen 7 - Budd-daliadau eraill

Mae angen i ni wybod a ydych chi neu'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil yn cael neu aros i glywed am unrhyw un o'r budd-daliadau canlynol:

- Taliad Anabledd Oedolion
- Lwfans Gweini
- Budd-daliadau profedigaeth
- Lwfans Gofalwr
- Taliad Cymorth Gofalwr
- Budd-dal Plant
- Lwfans Byw i'r Anabl
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- Budd-dal Ymddeol Graddedig
- Lwfans Gwarcheidwad
- Budd-dal Analluogrwydd
- Cymhorthdal Incwm
- Budd-dal Marwolaeth Ddiwydiannol
- Lwfans Ceisio Gwaith
- Taliad Anabledd Oedran Pensiwn
- Credyd Pensiwn
- Taliad Annibyniaeth Personol
- Lwfans Enillion Is
- Lwfans Byw i'r Anabl i Oedolion yr Alban
- Lwfans Anabledd Difrifol
- Pensiwn y Wladwriaeth
- Lwfans Dros Dro ar gyfer Gweddwon
- Atodiad i'r Anghyflogadwy wedi'i dalu oherwydd
 - anabledd rhyfel oherwydd gwasanaeth gyda Lluoedd EF, neu
 - damwain neu afiechyd diwydiannol

- Credyd Cynhwysol
- Pensiwn Rhyfel Gwraig Weddw neu Ŵr Gweddw
- Budd-dal Gwraig Weddw
- Credyd Treth Gwaith.

Tudalen 9 - Gwybodaeth arall

Defnyddiwch y rhan hon o'r ffurflen gais i ddweud wrthym am unrhyw wybodaeth arall am eich amgylchiadau.

Tudalen 10 - Credyd Pensiwn

Taliad di-dreth yw Credyd Pensiwn i'r rhai sydd wedi cyrraedd yr oedran cymhwyso, ac sy'n byw ym Mhrydain Fawr. Ystyr Prydain Fawr yw Cymru, Lloegr a'r Alban.

Mae oedran cymhwyso Credyd Pensiwn yn codi'n raddol. Cyrhaeddodd 65 i fenywod ym mis Tachwedd 2018 ac mae'n codi'n unol ag oedran Pensiwn y Wladwriaeth i gyrraedd 66 erbyn Hydref 2020 a 67 erbyn 2028 ar gyfer dynion a menywod. I gael gwybod pryd y gallwch gael Credyd Pensiwn ewch i **www.gov.uk/cyfrifiannell-credyd-pensiwn**

Gallwch hefyd ofyn am daflen PC1F am Gredyd Pensiwn gan eich canolfan bensiynau. Mae'r daflen yn cynnwys tabl a fydd yn eich helpu i weithio allan pryd y gallwch gael Credyd Pensiwn.

Mae dwy ran i Gredyd Pensiwn - y **Credyd Gwarantiedig** a'r **Credyd Cynilion**.

Mae'r Credyd Gwarantiedig yn gweithio trwy ychwanegu at eich incwm wythnosol i lefel isafswm gwarantiedig.

Os ydych chi neu'ch partner yn 65 oed neu'n hŷn a'ch bod wedi cynilo rhywfaint o arian tuag at eich ymddeoliad, fel ail bensiwn neu gynilion, efallai y cewch y Credyd Cynilion.

Os ydych yn cael neu'n gwneud cais am Gredyd Pensiwn tra byddwch yn gohirio gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth, byddwn yn gweithio eich Credyd Pensiwn allan fel petaech yn cael eich Pensiwn y Wladwriaeth.

Ni allwn dalu Credyd Pensiwn yn lle Pensiwn y Wladwriaeth yr ydych wedi dewis ei ohirio.

I wneud cais am Gredyd Pensiwn gallwch ein ffonio ar **0800 99 1234**. Os oes gennych anawsterau lleferydd neu glyw gallwch gysylltu â ni gan ddefnyddio ffôn testun ar **0800 169 0133**.

Os hoffech wybod mwy am Gredyd Pensiwn, gofynnwch pan fyddwch yn cysylltu â ni ynglŷn â'ch Pensiwn y Wladwriaeth. Neu ewch i **www.gov.uk/credyd-pensiwn**

Pan fyddwch yn ein ffonio byddwn yn gofyn i chi am eich amgylchiadau. Er enghraifft, efallai y byddwn yn gofyn i chi am unrhyw incwm, cynilion a buddsoddiadau sydd gennych chi a'ch partner neu am blentyn neu berson ifanc yr ydych yn gyfrifol amdano.

Os byddwch yn gwneud cais am Gredyd Pensiwn, gallwn hefyd eich helpu i wneud cais am Fudd-dal Tai ar yr un pryd.

Newidiadau i Gredyd Pensiwn ar gyfer cyplau o 15 Mai 2019.

Mae'r rheolau budd-daliadau ynghylch cyplau wedi newid o 15 Mai 2019.

O'r dyddiad hwnnw, os ydych mewn cwpl bydd angen i chi a'ch partner fod wedi cyrraedd oedran cymhwyso Credyd Pensiwn cyn y gallwch gael Credyd Pensiwn.

Os mai dim ond un ohonoch sydd wedi cyrraedd yr oedran cymhwyso a bod gennych hawl i Gredyd Pensiwn neu Fudd-dal Tai ar gyfer pensiynwyr cyn 15 Mai:

- ni fydd y newid hwn yn berthnasol i chi, a
- ni fydd yn berthnasol i chi cyhyd ag y byddwch yn parhau i gael y naill neu'r llall o'r budd-daliadau hyn fel cwpl.

Os byddech yn gymwys i gael Credyd Pensiwn, neu Fudd-dal Tai i bensiynwyr, o dan y rheolau sy'n berthnasol cyn 15 Mai, ond heb wneud cais o'r blaen, bydd gennych hyd at 13 Awst i wneud cais wedi'i ôl-ddyddio i 14 Mai. Bydd hyn yn golygu y gallwch gael Credyd Pensiwn o dan yr hen reolau.

I gael mwy o wybodaeth, gan gynnwys pan nad yw'r newid hwn yn berthnasol, ewch i [**www.gov.uk/credyd-pensiwn**](http://www.gov.uk/credyd-pensiwn)

Tudalen 10 - Datganiad

Mae'n bwysig eich bod yn llofnodi a dyddio'r ffurflen gais. Os na wnewch hynny, bydd yn rhaid i ni ei anfon yn ôl atoch.

Pan fyddwch wedi llenwi eich ffurflen gais

1. Gwiriwch eich bod wedi ateb yr holl gwestiynau ar eich ffurflen gais sy'n berthnasol i chi.
2. Gwiriwch eich bod wedi llofnodi'r ffurflen ar **Dudalen 10**.
3. Anfonwch eich ffurflen gais ac unrhyw ddogfennau atom.

Os nad oes amlen ateb, ffoniwch Y Gwasanaeth Pensiwn ar **0800 731 7936**.

Gall pobl â phroblemau lleferydd neu glyw sy'n defnyddio ffôn testun ffonio **0800 731 7013**.

4. Pryd i wneud cais

Os ydych am wneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth nawr, anfonwch eich ffurflen gais atom. Er mwyn sicrhau nad yw eich cais yn cael ei oedi dylech ateb pob cwestiwn ar y ffurflen hon sy'n berthnasol i chi a'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil, os oes gennych un ac anfonwch unrhyw ddogfennau y gallem fod wedi gofyn amdanynt.

Os na allwch wneud hyn, cysylltwch â ni. Ond gall unrhyw fudd-dal y gallwch ei gael o ganlyniad i'r cais hwn gael ei ohirio, neu ei golli'n gyfan gwbl.

5. Efallai y bydd gennych hawl i Gredyd Pensiwn. Am fwy o wybodaeth ffoniwch y rhif rhadffôn **0800 99 1234**.

Beth sy'n digwydd nesaf

Byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud faint o Bensiwn y Wladwriaeth y gallwch ei gael ac o phryd bydd yn cael ei dalu. Os nad oes gennych hawl i Bensiwn y Wladwriaeth byddwn yn dweud pam wrthych.

Mwy o wybodaeth

Sut mae DWP yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth

Pan fyddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch efallai y byddwn yn ei defnyddio at unrhyw un o'n dibenion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- budd-daliadau a lwfansau nawdd cymdeithasol
- cynhaliaeth plant
- cyflogaeth a hyfforddiant
- ymchwilio ac erlyn troseddau credydau treth
- polisi pensiynau preifat a
- cynllunio ar gyfer ymddeoliad.

Efallai y cawn wybodaeth amdanoch gan bartïon eraill at unrhyw un o'n dibenion fel mae'r gyfraith yn caniatáu, i wirio'r wybodaeth rydych yn ei darparu a gwella ein gwasanaethau. Efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth amdanoch i sefydliadau eraill fel mae'r gyfraith yn caniatáu, er enghraifft i ddiogelu yn erbyn trosedd.

I gael gwybod mwy am ein dibenion, sut rydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol at y dibenion hynny a'ch hawlau gwybodaeth, gan gynnwys sut i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth, ewch i l

www.gov.uk/dwp/siarter-gwybodaeth-personol

Mwy o wybodaeth

I gael mwy o wybodaeth am Bensiwn y Wladwriaeth gallwch ymweld â'n gwefan yn **www.gov.uk/pensiwn-y-wladwriaeth**, neu drwy ffonio **0800 731 0453**.

I gael mwy o wybodaeth am dreth a Phensiwn y Wladwriaeth gallwch ymweld â gwefan HMRC **www.gov.uk/tax-national-insurance-after-state-pension-age**

Ni allwch wneud cais am gynnydd yn eich Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer plant neu bobl ifanc sy'n gymwys.

Ni allwch bellach wneud cais newydd am Gredyd Treth Plant i helpu i gefnogi plentyn neu berson ifanc cymwys yr ydych yn gyfrifol amdano. Yn lle hynny, efallai y byddwch yn gallu cael Credyd Pensiwn, sy'n cynnwys swm ychwanegol fel rhan o'r elfen Credyd Gwarantiedig.

Ni all y swm ychwanegol ar gyfer plentyn neu berson ifanc cymwys gael ei dalu i unrhyw un sydd eisoes yn cael Credydau Treth. Os ydych yn hawlio Credydau Treth, neu wedi bod yn hawlio Credydau Treth yn y flwyddyn flaenorol, dylech gysylltu â Chyllid a Thollau EF (HMRC) yn gyntaf i weld a ellir parhau â'r cymorth hwn. Gallwch ffonio HMRC ar **0300 200 1900**. Os oes gennych anawsterau lleferydd neu glyw, gallwch gysylltu â nhw drwy ddefnyddio ffôn testun ar **0345 300 3909**.

I gael mwy o wybodaeth am y newidiadau hyn ewch i **www.gov.uk/credyd-pensiwn**

Gall DWP roi cyngor i chi am Lwfans Gweini, Lwfans Gofalwr, Taliadau Tanwydd Gaeaf a Taliadau Angladd.

I gael mwy o wybodaeth am Fudd-dal Tai, cysylltwch â'ch awdurdod lleol. Ewch i www.gov.uk/find-local-council i ddod o hyd i fanylion eich awdurdod lleol.

Cysylltiadau defnyddiol

Cysylltiadau defnyddiol eraill

Budd-daliadau Anabledd

Os oes gennych fynediad i'r rhyngwrwyd, gallwch ddod o hyd i ffurflenni cais, canllawiau a gwybodaeth ar www.gov.uk

Drwy ateb rhai cwestiynau syml gallwch wirio os oes gennych hawl i ystod o fudd-daliadau drwy ymweld â www.gov.uk/benefitadviser

Os ydych chi'n byw yn yr Alban ewch i www.mygov.scot/benefits

Uned Lwfans Gofalwr

Ffôn: **0800 731 0297**

Ffôn testun: **0800 731 0317**

Am gyngor a gwybodaeth ar gyfer pobl sy'n gofalu am rywun sydd ag anabledd.

Gofal nyrsio mewn cartrefi gofal wedi ariannu gan GIG

Ffônïwch: **0300 123 1002** (Lloegr) neu **029 2082 5295** (Cymru)

Am gopi am ddim o'r daflen, 'NHS Funding Care in Nursing Homes – what it means for you'.

Llinell Gyngor Age UK

Gallwch gysylltu ag Age UK am wybodaeth a chynghor drwy ffonio **0800 055 6112**. I ddod o hyd i fanylion cyswllt os ydych yn byw yng Nghymru, Yr Alban neu Ogledd Iwerddon, neu i ddod o hyd i wasanaethau lleol yn eich ardal ewch i www.ageuk.org.uk

Royal National Institute for Deaf People (RNID)

Ffôn: **0808 808 0123**

Relay UK: **18001** yna **0808 808 9000**

E-bost: information@rnid.org.uk

Gwefan: www.rnid.org.uk

Am wybodaeth ac adnoddau ar gyfer y byddar a thrwm eu clyw, eu teuluoedd a'u ffrindiau.

Cyngor ar Bopeth

Gwefan: www.citizensadvice.org.uk

Am gyngor cyffredinol, yn cynnwys cyngor ar bensiynau. Cewch rif eich Cyngor ar Bopeth lleol yn y llyfr ffôn.

Cadwch y nodiadau hyn mewn lle diogel. Nid oes angen eu dychwelyd gyda'r ffurflen.

